Dwi am fynd a ni i'r hen destament am ein myfyrdod ni heddiw. At hanes cymeriad o'r enw Noa. Tybed pa ddarlun sy'n dod i'ch meddwl chi wrth feddwl am Noa. Dyn mewn tipyn o oed efallai?, gyda barf fawr wen, ac yna rhesi ribidires o anifeiliaid y tu nol iddo yn ymlwybro tuag at  gwch mawr. Ond tybed pwy da ni am gyfarfod heddiw?

Dwi'n gweithio dipyn gyda Sam - swyddog plant gyda'r urc. Fuon ni yn gohebu ar ebost am sbel, trefnu cynhadledd, gweithio ar adnodde. Roedd gen i syniad reit glir o sut foi oedd Sam  - tan i mi gwrdd a fe wyneb yn wyneb am y tro cyntaf. Pan weles i fe, y cyfan fedres i ddweud oedd, Oh, you're a woman! Dwn i ddim pam y syndod - ond am wn i roedd pob un Sam o ni wedi nabod erioed wedi bod yn ddyn. Roedd gen i Yncl Sam, a Sam Jones oedd ficer y plwyf. Ac ie, at Noa y ferch, a'i phedair chwaer - merched Seloffehad da ni am droi heddiw. Mae ei hanes yn llyfr Numeri, pennod 26/7.

Darllen a gweddi

EMYN

Fuoch chi erioed yn rhan o'r spice mania?- cyfnod y girl power - grwp y Spice girls gyda Posh, scary, ginger, sporty a baby spice

Wel, yn ein hanes ni heddi, dwi am awgrymu bod gyda ni'r spice girls gwreiddiol

Mala, Noa, Hogla, Milca a Tirsa

Spice girls y beibl efo'u 'Girl power' go iawn, 5 o ferched gydag attitude!

Da ni wedi dod i adnabod y spice girls cyfoes yn ol eu cymeriad - mae victoria yn Posh, mel b yn scary, Geri yn ginger, Emma yn baby, a mel c yn sporty.

Ond does gynon ni ddim gwybodaeth am gymeriad unigol y 5 chwaer o'r Beibl . Ond mae'r hanes yma yn deud llawer wrthon ni am bwy oedden nhw fel pumpawd.

I'll tell yo what we want, what we really really want, we want - wel, what we want is - be da ni isho ydy yr hawl i feddiannu / etifeddu tir ein tad Seloffhead - tir llwyth Manase - un o 12 llwyth Israel.

5 merch Seloffhead. Wrth adael yr Aifft Seloffhead oedd pennaeth llwyth Manase ond yn anffodus bu farw ar y daith o'r Aifft. Mi ddigwyddodd hyn tua diwedd cyfnod yr exodus, tua 1500 CC.

Yn yr hanes down n ar draws 2 gymeriad allweddol - un yn arweinydd gwleidyddol a'r llall yn arweinydd ysbrydol.

Moses – yr un ddaru Duw ei ddewis i arwain yr Israeliaid allan o gaethiwed yn yr Aifft a'u harwain i wlad yr addewid - a'r un ddaru Duw rannu ei gyfraith a'i ddeddfau gyda fe.

Ac Eleasar - Archoffeiriad Israel, a oedd yn gyfrifol am y Tabernacl - y Deml grwydrol lle cedwid Arch y Cyfamod.

Mae Moses newydd esbonio sut y byddai'r tir yn cael ei rannu rhwng y gwahanol lwythi. Ond wrth i Moses osod allan y llwythi, tydi llwyth Manase ddim yn y rhestr. Mae'r 12 llwyth wedi mynd yn 11.

Pam? Am fod Seloffhead wedi marw heb feibion.

Bydde'r merched wedi clywed y cyhoeddiad hwn - a gweld bod enw eu tad yn absennol o'r rhestr. Bydde nhw yn mynd yn rhan o lwyth arall. Dyna oedd y drefn - dyna oedd y gyfraith. Y gyfraith a roddwyd i Moses gan Dduw. Yn ol y gyfraith honno, os nad oedd gan bennaeth llwyth 'feibion', roedd yr etifeddiaeth i fynd i'w frodyr. Ond doedd merched seloffehad ddim yn hapus efo hynny.

Aeth y 5 ohonynt at Moses ac Eleasar a gofyn am gael derbyn y rhan o wlad Canaan a fwriadwyd ar gyfer eu tad, er mwyn cadw llwyth Manase gyda'i gilydd.

Mae Moses yn ymgynghori gyda Duw ac mae Duw yn cytuno i'w cais.

Mae'n stori ryfeddol, ac yn hynod o berthnasol a chyfoes  i'n byd ni heddiw.

Mae ffydd a dewrder y merched yn gwbl ryfeddol. Yr hyn sy'n drawiadol yma yw eu bod nhw wedi herio'r gyfundrefn batriarchaidd oedd yn bodoli ers canrifoedd.

Trefn a cyfraith etifeddu oedd bod y mab hyna yn cael dwbl eiddo yr ail fab, a bydde'r ail fab yn cael dwbl y trydydd mab, ac yn y blaen. O fewn y drefn honno, doedd merched ddim yn derbyn unrhyw ganran o gwbl.

Y disgwyl oedd y bydde nhw yn cael eu cyflwyno'n rhodd i ddynion eu priodi - fel - a hynny am daliad, dowry, gan eu tad. Os welsoch chi y sioe Fiddler on the roof erioed, yr un yw'r stori yno. Mae gan y penteulu Tevie 5 o ferched ond dim meibion. If I were a rich man - hynny yw, sut fedra i dalu i gwaddol i'r 5 ohonynt gael priodi.

Dyna oedd y drefn di bod - tan i ferched Seloffhead gredu'n wahanol. Mae nhw'n mynd yn uniongyrchol at Moses ac Eleasar. Mae nhw'n mynd i mewn i gyntedd y Tabernacl, ac

yn gofyn - pam na chawn ni etifeddu tir llwyth Manase? Pam ddylai enw ein tad gael ei anghofio am nad oedd ganddo feibion. Rho i ni ei etifeddiaeth ymysg ei frodyr.

Fasa chi'n disgwyl y bydde Moses wedi eu ceryddu nhw, a'u gyrru nhw ffwrdd am fod mor haerllug. Am fentro i mewn i ofod y dynion - a holi am rhywbeth oedd yn gwbl groes i'r drefn ac yn erbyn cyfraith Duw.

Ond, er syndod mawr, mae Moses yn gofyn i Dduw beth ddyle ddigwydd.

Ac yn fwy rhyfeddol byth, mae Duw yn cytuno i'w cais, ac yn rhoi caniatad iddyn nhw berchnogi tir llwyth Manase wedi iddyn nhw cyrraedd gwlad yr addewid.

Hon mae'n debyg yw' fuddigoliaeth gynta yn y frwydr hir tuag at sicrhau cydraddoldeb i ferched yn y byd. Y tro cynta i'r gyfraith ildio a newid er budd y merched. Ac er bod dros 3000 o flynyddoedd wedi mynd heibio, go iawn ond yn y 100 mlynedd ddiwetha y gwelwyd newidiadau mawr.

Ymgyrch y syffrajets, dros hawl i bledleisio a gweithio.

Brwydr Emmeline Pankhurst, a'i merched, a grŵp o fenywod yn sefydlu Undeb Gwleidyddol y Merched ym 1903. Yng Nghymru da ni'n cofio rhai fel Margaret Haig Thomas a Cranogwen. Dim ond ers can mlynedd mae gan ferched yr hawl i bledleisio, a llai na hanner can mlynedd ers cael hawl i gyflog cyfartal am yr un gwaith.

Mae hanes y 5 chwaer yma yn gychwyn ar broses a thaith hir dros ganrifoedd o newid agwedd a rhagfarn. Ac eto, mewn gwledydd Moslemaidd, does gan ferched fawr o hawlie hyd heddiw. Dim hawl i addysg, dim hawl i ddewis gwr, neu i wrthod priodi gwr a ddewiswyd drosti, dim hawl i bleidlais, i fyw yn annibynol, na'r hawl i weithio na chymdeithasu heb ganiatad tad neu wr.

Gwelwyd canlyniade dychrynllyd y merched hynny mewn gwledydd fel Affganistan a feiddiodd herio'r gyfundrefn. Mae merched fel Noa sy wedi mentro siarad allan yn cael eu carcharu a'u poenydio neu hyd yn oed yn waeth yn cael eu llofruddio.

Mae'r merched yn ein hanes ni am weld parhad eu teulu - eu pobl - eu gwlad fel petai. Roedd dyfodol llwyth Manase mewn peryg o gael ei lyncu gan un o'r llwythi eraill. Ond mae Duw yn rhoi'r hawl i'r merched gadw'r llwyth gyda'i gilydd.

Yn ein byd ni heddi mae na gwffio am diroedd a gwledydd - fel da ni wedi gweld yn y dwyrain canol dros y ganrif ola, yr hyn sy'n digwydd yn Gaza ar hyn o bryd - a fel da ni'n gweld yn y trafodaethau rhwng Trump a Putin wrth iddyn nhw drafod dyfodol Wcrain ac Iran.

Ac fel Cymry Cymraeg da ni hefyd yn deall rhywbeth am frwydr iaith a chenedl - ac ymdrech i gael mwy o rym a hawlie i Gymru, gan osgoi y peryg i ninne hefyd fynd yn rhan o lwyth mwy. Mae stori y 5 chwaer - eu hesiampl a'u gweithredu yn ysbrydoliaeth - ac yn ein hatgoffa ni o be sy'n bosib.

Diolch am ffydd y 5 chwaer, a gredodd bod yr amhosib yn bosib.

Diolch am eu dewrder yn mentro herio anghyfiawnder, gan gyflwyno eu hachos, er mwyn gwarchod budd a lles eu pobl - teulu Manase.

Tybed sut mae hyn yn ein herio ni heddiw?

Sut fedrwn ni ymateb, i sicrhau cyfiawnder a thegwch i'r rhai sy mewn perygl o golli eu llais a'u hunaniaeth.

Lle dw i'n byw yn Llyn ac Eifionydd, mae mater o'n hawl i fyw adre yn bwnc llosg - yr angen i warchod ein cynefin a sicrhau bod gan bobl ifanc yr hawl i fyw adre - yr hawl i fedru fforddio byw yno - yn eu tir, gyda'i llwyth.

Ac ar drothwy y Sioe Fawr yn llanelwedd, yn y byd amaethyddol, gyda bygythiad y Dreth etifeddu tir - y Land Inheritance Tax - bod gan blant hawl i dderbyn tir y teulu - bod na hawl i basio ymlaen yr etifeddiaeth - o un genhedlaeth i'r nesa, heb orfod talu trethi i lywodraeth.

O Balesteina, i Wcrain, mae ffinie a hawl i dir yn achos sy'n creu sefyllfa erchyll yn ein byd heddiw.

Mae hanes Noa a'i chwiorydd gobeithio yn ein hysbrydoli, ac yn ein hatgoffa ni o werth cenedl, diwylliant, llwyth, iaith a gwlad heddiw.